



Cytunwyd na fyddwn yn agor cyfarfodydd y bwrdd i aelodau'r cyhoedd am y dyfodol rhagweladwy oherwydd yr achos Covid-19, felly cyhoeddir crynodeb o'r cyfarfod gan aminellu beth a drafodwyd.

Briff Bwrdd ar gyfer y Cyfarfod a gynhaliwyd am 10.30 ar 30 Ebrill

Croeso
Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Mynegodd y byddai'r bwrdd unedol yn cael ei brofi yn fwy nag y bu erioed yn y cyfarfod hwn, o ystyried profiadau gwahanol iawn yr aelodau annibynnol a'r swyddogion gweithredol dros y mis diwethaf. Gofynnodd i bawb i ddefnyddio eu profiad isicrhau canlyniadau cadarnhaol. Cydnabuodd y gwaith caled a'r ymdrech sylweddol gan y tîm gweithredol a oedd wedi eu gadael wedi blino. Roedd pethau'n newid o ddydd i ddydd ac roedd angen i'r swyddogion gweithredol ddeall bod gan yr aelodau annibynnol gyfrifoldeb i gael eu hysbysu ac i dderbyn sicrwydd. Ar yr un pryd, roedd angen i'r aelodau annibynnol gydnabod y straen ar y tîm gweithredol ac adlewyrchu hyn yn y ffordd yr oeddent yn eu craffu.. Dywedodd y prif weithredwr mai hwn oedd cyfarfod bwrdd cyntaf Emma Woollett yn dilyn ei phenodiad fel y cadeirydd gwirioneddol a chynigiodd ei llongyfarchiadau ar ran y bwrdd.
Datganiadau Buddiant
Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.
Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol
Cymeradwywyd y rhain yn amodol ar welliannau.
Materion yn Codi
(i) <u>Mewnosodiad Falf Aortig Trawsgroenol (TAVI)</u> Darparwyd adborth gan y bwrdd ym mis Mawrth 2020 i'r tîm clinigol a derbyniwyd cadarnhad bod y camau yn ymwneud â chyfathrebu â meddygon teulu a chlinigwyr wedi'u cwblhau. Byddai sylwadau'n cael eu darparu ar y cam nesaf yr wythnos ganlynol ac roedd trafodaethau hefyd yn cael eu cynnal gyda Choleg Brenhinol y Meddygon mewn perthynas ag ymholiadau yn yr adroddiad drafft ar gyfer yr ail garfan o achosion. Er hynny, mynegwyd eu bod yn ymddangos yn fodlon â'r cynnydd a wnaed ac yn hapus i wneud hynny a pharhau i gefnogi'r broses.

Cofnod Gweithredu

Nodwyd y cofnod gweithredu.

Diweddariad Covid-19

Amlygwyd y pwyntiau canlynol:

(i) Cyflwyniad

- Gan adlewyrchu ar y sefyllfa a amlygwyd yn y ddau gyfarfod bwrdd ym mis Mawrth 2020, gwnaed cynnydd rhyfeddol, gan gynnwys sefydlu adran achosion brys pediatreg, mwy o gapasiti gofal critigol, uned asesu anadlol yn ogystal ag ysbytai maes;
- Yn anffodus, collwyd nifer o gydweithwyr, o fewn y bwrdd iechyd a theulu ehangach y GIG, a gyflwynodd amseroedd anodd a heriol i staff wrth iddynt ofalu amdanynt ac ymdopi â'u colled;
- Roedd y ffordd yr oedd y bwrdd iechyd yn rhedeg yn adnabyddadwy, felly hefyd y ffordd yr oedd bywydau yn cael eu byw;
- Rhoddwyd ystyriaeth i sut i ddarparu mwy o wasanaethau hanfodol nad sy'n wasanaethau Covid yn awr;
- Roedd y bwrdd iechyd wedi pasio ei frig cyntaf ac nid oeddent wedi cael eu gorlethu diolch yn rhannol i staff gadw ffocws ar yr hyn yr oedd angen ei gyflawni a'r pethau anhygoel yr oeddent wedi'u cyflawni;
- Cyflawnom lawer mewn cyfnod byr o amser. Er y gwnaed rhai camgymeriadau, gellir dysgu gwersi ohonynt, ond roedd yn rhyfeddol faint a gafodd ei gyflawni.

(ii) Adroddiad Diweddaru

- Roedd y bwrdd iechyd wedi dechrau ei ymateb yn gynnar, ac felly roedd wedi paratoi o flaen llaw ar gyfer beth oedd i ddod;
- Sefydlwyd strwythur gorchymyn, gyda threfniadau aur, arian ac efydd yn ogystal â chellau cynllunio ehangach;
- Gweithredwyd trawsffurfiad sylweddol ar draws y bwrdd iechyd o fewn cyfnod byr o amser, gyda gofyniad i'r unedau i greu cynlluniau ar gyfer capasiti critigol ac aciwt a'r wardiau'n cael eu hail-ddylunio fel bo angen;
- Un o'r elfennau mwyaf heriol o'r ymateb oedd penderfynnu'r paramedrau cynllunio, gan y derbyniwyd nifer o ragolygon modelu gwahanol iawn yn diwrnodau cynnar;
- Crëwyd capasiti critigol ac aciwt ychwanegol sylweddol mewn ymateb i lythyr gan Lywodraeth Cymru. Er yn anffodus na gafodd ei ddefnyddio'n llawn yn ycam cyntaf hwn, roedd ei fodolaeth yn medru darparu sicrwydd y byddai'r bwrdd iechyd yn medru ymdopi ag ail frig pe bae un yn digwydd;
- Mae'r bwrdd iechyd wedi cael budd gan ddau swyddog cyswllt milwrol sydd wedi darparu cymorth sylweddol;

- Sefydlwyd ardal gofal critigol unigol yn yr adran cleifion allanol yn Ysbyty Treforys rydym yn gobeithio bydd yn ei wneud yn haws i gyflenwi'r cynllun gweithlu;
- Mae'r ysbyty maes Llandarcy yn awr yn weithredol a bydd ysbyty maes y Bae yn ei ddilyn mewn camau;
- Roed ffocws yn awr yn cael ei roi i gael gweithlu unigol yn weithredol ar draws y bwrdd iechyd ar gyfer cyflenwad gwasanaethau yn hytrach na chynlluniau uned unigol. Os oes yn angenrheidiol i ddefnyddio'r capasiti o fewn yr ysbytai maes, a bydd angen rhoi ystyriaeth sut i adleoli staff , a oedd yn digwydd ar wardiau craidd yn barod oherwydd y nifer o absenoldebau;
- Roedd profion wedi bod yn ei le o fis Mawrth 2020 ac roedd ail gyfleuster profi cymunedol yn Stadiwm y Liberty yn mynd i agor o fewn dyddiau, a fyddai'n rhoi hyblygrwydd i ymateb i dirwedd sy'n newid bob amser;
- Sefydlwyd strwythur arian cymunedol. Roedd hyn yn cynnwys cydweithwyr gwasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau lleol ac mae ganddo hefyd ffocws ar gartrefi gofal. Roedd yna grŵp aml-asiantaeth ar draws y bartneriaeth ranbarthol hefyd yn lle'r prosesau llywodraethu ffurfiol arferol yn ogystal â grŵp rhyngwynebu strategol gofal iechyd a chymdeithasol oedd yn edrych ar nifer o ardaloedd, megis modelu a phrofi.
- Datblygwyd cynllun er mwyn ymateb i gynnydd mewn marwolaethau, datblygwyd rhan ohono er mwyn ymateb i gynnydd mewn marwolaethau, rhan ohono yn gynnwys ffocws ar gymorth ar gyfer y rheiny'n mynd drwy brofedigaeth, nid yn unig ar gyfer teuluoedd, ond hefyd ar gyfer staff, a oedd hyn gofalu am y cleifion ar ddiwedd eu bywyd, ac roedd rhai ohonynt yn ffrindiau. Roedd ein cydweithwyr caplaniaeth yn rhan fawr iawn o'r gwaith hwnnw.
- Nid oedd prosesau arferol ar gyfer diwedd bywyd bellach yn ei lle ond roedd yna rai gweithdrefnau ymweld yn ei le. Roedd Skype ar gael er mwyn i bobl siarad, a chofnodwyd geiriau olaf rhai cleifion mewn rhai achosion. Yn ychwaneg, roedd gan bob claf brif clinigydd a oedd yn ffonio teuluoedd wrth ddiwedd eu bywyd ac roedd cyfeiriadau e-bost pwrpasol hefyd. Roedd risgiau pe bae cleifion yn dod i mewn i ardaloedd yn llawen Covid-19 felly roedd angen ar gyfer cyfyngiadau, ond sicrhodd y staff na fyddai unrhyw un yn marw ar eu pen eu hunain.
- Byddai'r ysbytai maes ond yn cael eu defnyddio unwaith oedd yr holl gapasiti arall wedi ei lenwi, ond gan ystyried risg a breuder y system, roedd potensial ar gyfer defnyddiau amgen, ond yr un pryd byddai angen gofal rhag ofn byddai ail frig;

(iii) Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)

- Roedd PPE yn achos pryder ar gyfer staff;
- Newidiodd y canllawiau dros yr wythnosau diweddar;
- Roedd stoc ddigonol o fewn y safleoedd ar gyfer 24 awr o leiaf;
- Derbyniwyd misyrnau gan y Post Brenhinol a ddadlygrwyd a'u hail-bwrpasu;

- Roedd cadwynau cyflwenwi PPE o fewn y gymuned yn casglu momentwm. Defnyddiwyd ef gan staff yn mynd i mewn i gartrefi gofal neu gleifion, gyda'r cymorth milwrol yn edrych ar y logisteg i sicrhau cyflenwad parhaus;
- Modelwyd gofynion PPE yr ysbyty maes i sicrhau y bwydir gofynion drwy'r gadwyn gyflenwi a pharhaodd y gwaith i darddu cyflenwadau, er enghraifft, gwnaed archeb fawr o fasgiau a fyddai'n darparu hydwythdedd rhag ofn y byddwn angen defnyddio ysbytai maes.

(iv) Diweddariad Cyllideb Elusenol

- Mae ymateb anhygoel wedi bod gan y cyhoedd yn nhermau rhoddion, nid yn unig o ran arian ond hefyd o ddillad nos a thaclau ymolchi a derbyniodd y bwrdd iechyd hefyd arian a godwyd drwy elusen GIG DU-gyfan..

Adroddiad Perfformiad Materion sydd ddim yn Covid-19 a Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Adrodd Dros Dro

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd rhai metrigau dal yn cael eu coladu tra'r ataliwyd eraill oherwydd yr angen i ganolbwyntio ar Covid-19, ac roedd gwaith yn cael ei wneud i gofnodi ffigyrau iechyd meddwl;
- Roedd llai o bresenoldebau a derbyniadau i'r adran frys wedi bod yn amlwg o ddechrau'r cyfnod ynysu cymdeithasol;
- Cofnodwyd y nifer o gleifion gyda Covid-19 tybiedig neu wedi ei gadarnhau gan roi brig i'r darlun;
- Ble fo'n bosibl, byddai mesuriadau ansawdd a diogelwch yn parhau i gael ei adrodd i ddarparu safbwynt ehangach o'r effeithiau mae Covid-19 yn cael ar y system gofal iechyd;
- Addaswyd monitro perfformiad mewnol i adlewyrchu'r canllawiau a osodwyd yn llythyr Llywodraeth Cymru i brif weithredwyr.

Risgiau Gweithredol a Strategol i'r Bwrdd Iechyd yn ystod y Pandemig Covid-19

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae'r broses yn gosod allan sut y monitorir risgiau yn ystod y pandemig.;
- Roedd y cyfarwyddwr gweithredol yn adolygu'r risgiau a'u sgoriau'n rheolaidd;
- Cytunwyd i newid y parodrwydd i dderbyn risg gan y bwrdd adolygu risgiau a sgorir 16 neu fwy ar sail reolaidd i'r rhai a sgorir 20 neu fwy;
- Ystyrir risgiau gan y pwyllgorau perthnasol unwaith eu bod yn weithredol eto.

Dull Adfer, Dysgu ac Arloesi

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd trafodaethau wedi canolbwyntio i ddechrau ar raddfeydd amser tymor hirach a sut i ddefnyddio dysgu ac arloesi i ddod â chapasiti yn ôl;
- Roedd angen rhoi ystyriaeth yn awr i sut i ail-ddechrau rhai gwasanaethau hanfodol gyda dim byd i wneud â Covid-19;
- Dros yr wythnosau diwethaf, daeth pedair theatr yn ôl i statws gweithredol yn Ysbyty Treforys ar gyfer achosion gofal brys;
- Roeddent yn cymryd dull ofalus i gynyddu gweithgaredd i reoli'r risgiau o ddod â chleifion agored i niwed i safleoedd ble roedd Covid-19 yn bresennol;
- Roedd y gweithlu yn parhau i fod yn her, yn enwedig oherwydd absenoldebau, yn ogystal ag adleoli staff yn seiliedig ar yr argaeledd o sgiliau;
- Roedd dewis y claf yn gritigol oherwydd ni fyddai pawb yn teimlo'n gyfforddus i ddod i mewn ar gyfer triniaeth.
- Roedd trafodaethau'n digwydd o fewn GIG Lloegr ynghylch ysbytai'n 'rhydd o Covid-19' ond ni ellir gwarantu'r rhain oherwydd nad oedd yn sicr y byddai pob gweithred gostwng yn llwyddiannus;
- Roedd y cydbwysedd risg yn gritigol a dylid gwneud cynnydd ar sail achos wrth achos, yn hytrach na symud ymlaen oherwydd roedd capasiti yn nhermau gwelyau. Roedd blaenoriaethau yn cael eu datblygu, gyda mewnbwn clinigol a lefel uned, a chytunir arno yn syth er mwyn cael dull strategol ar draws yr holl fwrdd.

Adroddiad Ariannol

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Cyrhaeddwyd y targed diwedd blwyddyn o ddiffyg o £ 16.3m heb unrhyw adfachu arian perfformiad a chafwyd cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwariant Covid-19;
- Mae'r terfyn adnoddau cyfalaf wedi'i gyflawni;
- Roedd cynlluniau ar waith i gau'r cyfrifon diwedd blwyddyn ar 11 Mai 2020 a oedd 11 diwrnod cyn y dyddiad cau a chafwyd arweiniad ynghylch arfer da ar gyfer dal costau Covid-19 ar gyfer y flwyddyn gyfredol;
- Cefnogwyd dull Cymru gyfan mewn perthynas â chytundebau tymor hir a lefel gwasanaeth. Roedd proses ar waith ar gyfer chwarter un ond roedd angen trafodaethau o ran ymestyn hyn.

Pwyllgor Moeseg Glinigol

Trafodwyd y pwyntiau canlynol:

- Rhagwelwyd y byddai Covid-19 yn llethu'r system debyg i'r un mewn rhannau eraill o Ewrop a phe bai hynny wedi bod, byddai wedi bod angen dewisiadau i gleifion o ran awyru wedi eu gwneud;

- Roedd gan y bwrdd iechyd bwyllgor moeseg glinigol sefydledig a oedd yn cynnwys Prifysgol Abertawe yn ei aelodaeth;
- Er ei fod wedi paratoi i ystyried ymatebion cyflym i gynorthwyo clinigwyr, nid oedd hyn wedi bod yn angenrheidiol ac roedd y rhan fwyaf o'r trafodaethau wedi canolbwyntio ar beth fyddai'r camau gweithredu ar gyfer y cam nesaf a sut i flaenoriaethu cleifion nad ydynt yn Covid-19 ar ôl i'r gwasanaethau hanfodol ailgychwyn.

Penderfyniadau a Wnaed o dan Weithred y Cadeirydd

Cadarnhawyd adroddiad yn nodi penderfyniadau a wnaed o dan weithred y cadeirydd mewn perthynas â threfniadau llywodraethu a defnyddio PPE heb farcio CE.

Ymateb i Gwestiynau gan Aelodau'r Cyhoedd

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd.

Cyfathrebu ar ôl y Cyfarfod â'r Cyhoedd

Rhoddwyd diweddariad llafar yn nodi y byddai nodyn briffio o sesiwn gyhoeddus y bwrdd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y bwrdd iechyd cyn pen saith niwrnod gan ei fod ar gau i aelodau'r cyhoedd a'r wasg.

Unrhyw Fusnes Arall

(i) Gwneud Penderfyniadau ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Cytunwyd ar adroddiad yn nodi'r trefniadau arfaethedig ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn amodol ar gynnwys y Cyfarwyddwr Strategaeth yn aelodaeth y bwrdd partneriaeth rhanbarthol rhyfeddol.

(ii) Cynnig Diolch

Diolchodd y cadeirydd i'r cyfarwyddwyr gweithredol a'r staff, yn enwedig ar y rheng flaen, am eu gwaith caled a'u hymrwymiad dros y chwe wythnos ddiwethaf. Yn ystod y cyfnod hwnnw roedd syfrdanol faint a gyflawnwyd ym mhob ardal o weithrediadau'r bwrdd iechyd gan gynnwys gweithlu, cyllid, ysbytai maes, partneriaethau, arweinyddiaeth a chapasiti yn ogystal â'r rheng flaen clinigol. Nododd hefyd yr effaith ar yr ymrwymiad a'r ymdrech i ddelio ag amgylchiadau na allai neb fod wedi'u disgwyl ac roedd angen i bobl sy'n cymryd yr amser i orffwys rhan o'r gwaith o baratoi'r cam nesaf.

Talodd y prif weithredwr deyrnged i'r staff a oedd ar goll ers i'r bwrdd gwrdd ddiwethaf.